



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru

### Penodi Cadeirydd

Ymrwymiad amser: o leiaf 30 diwrnod y flwyddyn. Mae'r swydd hon yn ddigyflog ond bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus hawl i gael tâl cydnabyddiaeth o £300 y dydd. Gellir hawlio costau teithio ac unrhyw gostau rhesymol eraill (gan gynnwys costau meddygon locwm) sy'n codi wrth gyflawni gwaith ar ran y Grŵp o fewn y terfynau cydnabyddedig. Gallech hefyd fod yn gymwys i hawlio ad-daliad am gostau yn gysylltiedig â gofal plant/gofal yr henoed/gofalwr cynorthwyol, tra byddwch yn gweithio ar ran y Grŵp.

Mae'r Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru a sefydlwyd yn 2002 yn rhoi cyngor i Weinidogion Cymru mewn modd effeithiol, effeithlon a thryloyw ar bresgripsiynu a rheoli meddyginiaethau'n strategol. Mae proses werthuso'r Grŵp, a gynnwys gan Gynllun Achredu Tystiolaeth y GIG, yn rhoi hawl i gleifion yng Nghymru gael mynediad i feddyginiaethau fel mater o drefn, a hynny cyn i'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn lechyd a Gofal (NICE) eu gwerthuso.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn Cadeirio hyd at ddeg cyfarfod o'r Grŵp bob blwyddyn, a bydd yn aelod o Bwyllgor Llywio'r Grŵp sy'n cwrdd bob mis. Bydd yn chwarae rôl allweddol o ran llywio'r agenda rheoli meddyginiaethau yng Nghymru a gweithredu strategaeth bresgripsiynu'r Grŵp, gan ddarparu arweiniad strategol i'r GIG yng Nghymru a'r holl randdeiliaid allweddol. Bydd yn rhan annatod o'r gwaith o ddatblygu partneriaethau arloesol y gall cleifion elwa arnynt ac yn sicrhau bod y defnydd o feddyginiaethau yng Nghymru yn cyflawni'r canlyniadau gorau.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i benodi unigolyn sy'n gallu dangos y canlynol:

- Gwybodaeth am y Gwasanaeth lechyd Gwladol a sut mae'n gweithredu yng Nghymru, ynghyd â diddordeb ynddo a gwybodaeth fanwl am faterion fferyllol, gan gynnwys trwyddedu meddyginiaethau a materion therapiwtig sy'n effeithio ar gleifion
- Gwybodaeth eang am bresgripsiynu a'r agenda rheoli meddyginiaethau (byddai profiad o hyn yn ddelfrydol)
- Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ac yn argyhoeddiadol, a'r gallu i gyfrannu'n berthnasol a phriodol at gyfarfodydd

- Dealltwriaeth o bwysigrwydd safonau uchel mewn bywyd cyhoeddus a phwysigrwydd meithrin cysylltiadau â chleifion a'r cyhoedd.

Yng Nghaerdydd y cynhelir cyfarfodydd y Grŵp fel rheol, ond gallai fod adegau lle gallai fod angen cynnal cyfarfodydd yn rhannau eraill o Gymru.

I gael rhagor o fanylion ac i wneud cais, ewch i <https://beta.llyw.cymru/penodiadau-cyhoeddus> neu i gyflwyno ymholiad, anfonwch e-bost i [publicappointments@llyw.cymru](mailto:publicappointments@llyw.cymru).

Y dyddiad cau ar gyfer y ceisiadau yw 7 Medi 2018. Disgwylir y bydd y cyfweiliadau'n cael eu cynnal ddechrau mis Hydref 2018.